

Annwyl Gwsmer

Cau Cangen nas Cynlluniwyd
Gwasanaeth Allgymorth Glyndyfrdwy
Neuadd Bentref Glyndyfrdwy, Glyndyfrdwy, Corwen, Sir Ddinbych, LL21 9HH

Rydym yn ysgrifennu i roi gwybod i chi, oherwydd diffyg defnydd gan gwsmeriaid, nid yw'r gwasanaeth allgymorth a ddarperir o Neuadd y Pentref, Glyndyfrdwy, , Sir Ddinbych, LL21 9HH bellach yn gynaliadwy a bydd yn cau ddydd lau 31 Hydref 2024 am 11.25. Gwnaed y penderfyniad hwn â chytundeb y postfeistr sy'n darparu'r gwasanaeth allgymorth yng Nglyndyfrdwy.

Byddwn yn gosod posteri i roi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau hyn. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrdau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Rydym yn ymddiheuro am yr anhwylostod a allai ddigwydd oherwydd y cau. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn unrhyw gangen gyfleus. Mae manylion am ddewisiadau amgen posibl ar ddiwedd y llythyr hwn ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Byddwn yn dal i fonitro defnydd gwasanaeth yn yr ardal a gwnawn yn siŵr fod unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth yn gynaliadwy i'r sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad ohono ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir

Kulwant S Dosanjh

Kulwant S Dosanjh

Rheolwr Newidiadau Ardal

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk

Postofficeviews.co.uk

FREEPOST Your Comments

Canghennau eraill

Mae yna adegau o bosibl pan fydd rhaid newid oriau agor cangen. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau, gan gynnwys gwasanaethau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal, ar ein gwefan

www.postoffice.co.uk/branch-finder

Swyddfa Bost Corwen	Gwasanaethau
Stryd y Bont Corwen Sir Ddinbych LL21 0DF	Yn cynnig gwasanaethau tebyg, yn ogystal ag Arian Teithio mewn Ewros a Doleri.

Yr oriau agor	Mynediad						
<table border="1"><tr><td>Llun–Gwen</td><td>07:00 – 20:00</td></tr><tr><td>Sad</td><td>07:30 – 20:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>08:00 – 17:00</td></tr></table>	Llun–Gwen	07:00 – 20:00	Sad	07:30 – 20:00	Sul	08:00 – 17:00	Mae gan y gangen hon ddrws llydan a grisiau â chanllawiau wrth y fynedfa.
Llun–Gwen	07:00 – 20:00						
Sad	07:30 – 20:00						
Sul	08:00 – 17:00						

Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth hwn tua 4.9 milltir o Wasanaeth Allgymorth Glyndyfrdwy, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae yna faes parcio o fewn 200 metr i'r adeilad. Mae yna wasanaeth bws ar gael rhwng Gwasanaeth Allgymorth Glyndyfrdwy a'r r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 210 metr i ffwrdd.

Swyddfa Bost Llangollen	Gwasanaethau
Ffordd Berwyn Llangollen Sir Ddinbych LL20 8NF	Gwasanaethau tebyg, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio, Gwirio ac Anfon Pasbort ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

Yr oriau agor	Mynediad								
<table border="1"><tr><td>Llun</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Maw - Gwen</td><td>09:00 – 12:00 13:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Sad</td><td>09:00 – 13:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar Gau</td></tr></table>	Llun	09:00 – 17:30	Maw - Gwen	09:00 – 12:00 13:00 – 17:30	Sad	09:00 – 13:00	Sul	Ar Gau	Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa.
Llun	09:00 – 17:30								
Maw - Gwen	09:00 – 12:00 13:00 – 17:30								
Sad	09:00 – 13:00								
Sul	Ar Gau								

Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth hwn tua 5 milltir o Wasanaeth Allgymorth Glyndyfrdwy, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae lle i barcio ar gwrth blaen yr adeilad. Mae yna wasanaeth bws ar gael rhwng Gwasanaeth Allgymorth Glyndyfrdwy a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 230 metr i ffwrdd.

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r dogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau nas cynlluniwyd¹/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

Postofficeviews.co.uk

Comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹ Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir cael gwasanaeth yn lle'r un a gafodd ei gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.